CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR

COFNODION Y CYFARFOD BLYNYDDOL A GYNHALIWYD AR FAI 7fed, 2024

Yn NEUADD BENTREF COEDYBRYN am 7.30 y.h.

Yn bresennol Cyng. Ceri Jones (Cadeirydd)
Cyng. Emyr Jones
Cyng. Rob Jones
Cyng. Teifi Evans
Cyng. Sharon Thomas
Cyng. Mark Davies
Cyng.Sian Williams

Clerc Rhian Jones

Eitem ar yr Agenda	**Gweithredu**	**Gan bwy**	**Erbyn pryd**
Croesawodd Y Cadeirydd bawb i'r Cyfarfod Blynyddol.			
1 . Ymddiheuriadau	Cyng. Llyr Evans, Cyng. Maldwyn Lewis a'r Cyng.Carol Davies.		
2. Datgan Diddordeb	DIM		
3. Cofnodion y Cyfarfod diwethaf.	Trafodwyd gofdnodion o gyfarfod blynyddol 2023 a gynhaliwyd ar Fai 2il, 2023 yn Neuadd Bentref Rhydlewis.		
4.Materion yn codi	DIM		
5. Cadarnhau'r Cofnodion	Cadarnhaodd Y Cyng Mark Davies fod y cofnodion yn gywir ac eiliodd y Cyng Sharon Thomas.		
6. Adroddiad Blynyddol	Derbyniodd pawb gopi o'r Adroddiad Blynyddol a cadarnhaodd pawb oedd yn bresennol ei fod yn gywir.		
7. Swyddogion 2024/25	Er mae Y Cyng.Roger Davies oedd yr Is-gadeirydd llynedd, oherwydd iddo ymddeol o'i rol ar y Cyngor roedd rhaid ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd newydd am y flwyddyn 2024/25. Cadeirydd - Cynigiodd y Cyng Mark Davies ethol y Cyng Sian Williams fel Cadeirydd swyddogol am y flwyddyn 2024/25 ac eiliwyd gan y Cyng Emyr Jones. Is-Gadeirydd – Cynigiodd y Cyng Teifi Evans ethol y Cyng.Sharon Thomas fel Is-gadeirydd swyddogol am y flwyddyn 23/24 ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng.Rob Jones. Etholwyd y Clerc Rhian Jones fel y Swyddog Ariannol Cyfrifol.		

Diolchodd y Cyng.Ceri Jones i bawb am eu cefnogaeth dros y flwyddyn, a diolchodd y Cyng.Sian Williams ar ran pawb i'r Cyng Ceri Jones am ei holl waith caled fel Cadeirydd dros y flwyddyn diwethaf.

S Williams 13/5/25.